

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales



2018/19

Cyllid i fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy'n parhau



 /SFWales

 /SF_Wales

 YouTube /SFWFILM

Beth yw Cyllid Myfyrwyr Cymru?

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Rydym yn darparu cymorth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru sy'n cychwyn ar gwrs addysg uwch yn y Deyrnas Unedig.

Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, eich cwrs a ble rydych chi'n astudio, efallai y byddwch yn gallu cael amrywiaeth o help a chymorth ariannol. Ac ni fydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr dalu unrhyw ffioedd dysgu o flaen llaw.

Gallech gael grantiau a bwrsariaethau (nad oes yn rhaid i chi eu had-dalu) a benthyciadau (y mae'n rhaid i chi eu had-dalu). Mae help ychwanegol ar gael hefyd i fyfyrwyr sydd â phlant neu oedolion dibynnol, neu anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd tymor hir, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol fel dyslecsia neu ddyspracsia.

Am ragor o ganllawiau ac offer defnyddiol, ewch i www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk

Gallwch ganfod diweddariadau rheolaidd ar Facebook, Twitter ac YouTube:

 /SFWales

 /SF_Wales

 YouTube /SFWfilm

Pwy ddylai ddarllen y canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy'n parhau ac a gychwynnodd ar eu cwrs cyn 1 Awst 2018.

Mae'r canllaw hwn yn egluro pa gyllid i fyfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser, yn ogystal â sut a phryd i ymgeisio.



Beth allaf i ei gael?

Tudalen 4




Cyrsiau a gychwynnodd ar neu ar ôl 1 Medi 2014

Tudalen 4



Cyrsiau a gychwynnodd cyn 1 Medi 2014

Tudalen 6



Sut a phryd ddylwn i ailymgeisio?

Tudalen 9



Beth am ad-daliadau?

Tudalen 11



Pa help ychwanegol sydd ar gael?

Tudalen 12



Cysylltiadau

Tudalen 16

Beth allaf i ei gael?

Cyrsiau a gychwynnodd ar neu ar ôl 1 Medi 2014

Benthyciad Ffioedd Dysgu

Beth yw diben hyn?

Mae'n helpu talu'r ffioedd dysgu a godir gan eich prifysgol neu'ch coleg.

Faint allaf i ei gael?

Os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg yng Nghymru, gallwch wneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu o hyd at £2,625.

Os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg a ariannir gan arian cyhoeddus mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig, gallwch wneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu o hyd at £6,935.

Os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg a ariannir gan arian preifat mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig, gallwch wneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu o hyd at £4,625.

Bydd y swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar y swm y bydd eich prifysgol neu'ch coleg yn ei godi arnoch.

Oes rhaid i mi ei ad-dalu?

Bydd, bydd gofyn i chi ddechrau ad-dalu fis Ebrill bedair blynedd ar ôl i'ch cwrs gychwyn neu'r mis Ebrill ar ôl i chi orffen

neu adael eich cwrs, pa un bynnag fydd yn dod gyntaf. Dim ond os bydd eich incwm yn uwch na'r trothwy ad-dalu, sef £21,000 y flwyddyn, £1,750 y mis neu £404 yr wythnos ar hyn o bryd, fydd angen i chi ddechrau talu ad-daliadau. Disgwylir i hyn newid i £25,000 y flwyddyn o 6 Ebrill 2018.

Unrhyw beth arall?

Rhaid bod dwyster y cwrs yr ydych yn ei astudio (gweler tudalen 8) yn 25% o leiaf er mwyn cael Benthyciad Ffioedd Dysgu.

Os bydd swm y ffioedd dysgu a godir gan eich prifysgol neu goleg yn uwch na swm y Benthyciad Ffioedd Dysgu sydd ar gael, bydd angen i chi dalu'r gwahaniaeth.

Gallwch wneud cais hyd at naw mis ar ôl i'ch cwrs gychwyn – ond os ydych yn dymuno cael eich arian yn barod erbyn i'ch cwrs gychwyn, dylech wneud cais cyn y terfyn amser.

Byddwn yn talu'r Benthyciad Ffioedd Dysgu i'ch prifysgol neu'ch coleg yn uniongyrchol ar ffurf tri rhandaliad yn ystod y flwyddyn academaidd. Os byddwch yn gadael, yn cymryd seibiant neu'n gorffen eich cwrs yn gynnar, bydd yn rhaid i chi ad-dalu unrhyw ffioedd dysgu yr ydym wedi'u talu i'ch prifysgol neu goleg.

Pryd y telir y Benthyciad Ffioedd Dysgu i'ch prifysgol neu goleg

Faint o'ch Benthyciad Ffioedd Dysgu a delir i'ch prifysgol neu goleg

Ar ddechrau tymor 1

25% o'r ffioedd dysgu

Ar ddechrau tymor 2

25% o'r ffioedd dysgu

Ar ddechrau tymor 3

50% o'r ffioedd dysgu

Beth allaf i ei gael?

Grant Cwrs

Beth yw diben hyn?

Gall y Grant Cwrs helpu talu am lyfrau, costau teithio a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r cwrs.

Faint allaf i ei gael?

Bydd y swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref.

Sut caiff ei dalu?

Fe'i telir i'ch cyfrif banc yn uniongyrchol ar ffurf un cyfandaliad.

Oes rhaid i mi ei ad-dalu?

Na fydd, oni bai eich bod yn gadael eich cwrs yn gynnar neu os byddwch yn cael gordaliad. Yn yr achos hwn, efallai y bydd yn rhaid i chi ddechrau ad-dalu'n gynharach a chyn y bydd eich incwm dros y trothwy ad-dalu.

Unrhyw beth arall?

Rhaid bod dwyster y cwrs yr ydych yn ei astudio yn 50% o leiaf ym mhob blwyddyn academiaidd er mwyn cael Grant Cwrs.

Gallwch wneud cais hyd at naw mis ar ôl i'ch cwrs gychwyn – ond os ydych yn dymuno cael eich arian yn barod erbyn i'ch cwrs gychwyn, dylech wneud cais cyn y terfyn amser.

Incwm y cartref	Swm y Grant Cwrs
£26,095 neu lai	Grant Cwrs Uchaf o £1,155
Rhwng £26,096 a £28,180	Grant Cwrs Rhannol (o leiaf £50)
£28,181 neu fwy	Dim Grant Cwrs

Beth allaf i ei gael?

Cyrsiau a gychwynnodd cyn 1 Medi 2014

Grant Ffioedd

Beth yw diben hyn?

Mae Grant Ffioedd yn helpu talu cost ffioedd dysgu a godir gan eich prifysgol neu goleg.

Faint allaf i ei gael?

Gallwch gael hyd at £1,025, gan ddibynnu ar incwm eich cartref a dwyster eich cwrs.

Mae'r tabl canlynol yn nodi uchafswm y Grant Ffioedd y gallech ei gael, ar sail dwyster eich cwrs ac incwm eich cartref.

Incwm	Uchafswm y Grant Ffioedd
Dan £16,865	Dwyster y cwrs yn llai na 60% – £690 Dwyster y cwrs rhwng 60% a 74% – £820 Dwyster y cwrs yn 75% neu fwy – £1,025
£16,865	Dwyster y cwrs yn llai na 60% – £640 Dwyster y cwrs rhwng 60% a 74% – £770 Dwyster y cwrs yn 75% neu fwy – £975
£16,866 i £25,434	Dwyster y cwrs yn llai na 60% – £640 yn llai £1 am bob £14.52 o incwm (cyn treth) dros £16,865 Dwyster y cwrs rhwng 60% a 74% – £770 yn llai £1 am bob £11.90 o incwm (cyn treth) dros £16,865 Dwyster y cwrs yn 75% neu fwy – £975 yn llai £1 am bob £9.26 o incwm (cyn treth) dros £16,865
£25,435	£50
£25,436 a throsodd	Dim Grant Ffioedd

Sut caiff ei dalu?

Byddwn yn talu'r Grant Ffioedd i'ch prifysgol neu goleg yn uniongyrchol.

Oes rhaid i mi ei ad-dalu?

Na fydd, oni bai eich bod yn gadael eich cwrs yn gynnar neu os byddwch yn cael gordaliad. Yn yr achos hwn, efallai y bydd yn rhaid i chi ddechrau ad-dalu'n gynharach a chyn y bydd eich incwm dros y trothwy ad-dalu.

Unrhyw beth arall?

Rhaid bod dwyster astudio eich cwrs yn 50% o leiaf er mwyn cael Grant Ffioedd.

Os ydych yn byw yng Nghymru ond mae'ch prifysgol neu goleg yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, gallai swm y cyllid i fyfyrwyr y byddwch yn ei gael fod yn wahanol. Dylech gysylltu â'ch prifysgol neu goleg i gael gwybod swm y ffioedd dysgu y maent yn eu codi am eich cwrs.



Beth allaf i ei gael?

Beth yw dwyster cwrs?

Dwyster cwrs yw pa mor hir y mae'n ei gymryd i gwblhau'ch cwrs rhan-amser o'i gymharu â'r amser y byddai'n ei gymryd i chi gwblhau'r cwrs amser llawn cyfatebol. I gyfrifo dwyster eich cwrs, dylech gymryd nifer yr unedau rhan-amser (megis credydau, pwyntiau credyd neu fodiwlau) y byddwch yn eu hastudio yn ystod y flwyddyn academaidd, a'u rhannu gyda nifer yr unedau y byddech yn eu cwblhau mewn un flwyddyn academaidd pe byddech yn astudio eich cwrs dan drefniant amser llawn. Dylech luosi'r rhif hwn gyda 100 er mwyn cael dwyster eich cwrs fel canran.

Er enghraifft:

$$\frac{\text{Unedau rhan-amser}}{\text{Unedau amser llawn}} \times 100 = \% \text{ dwyster y cwrs}$$

Os nad ydych yn siŵr am nifer y credydau, y pwyntiau credyd neu'r modiwlau y byddwch yn eu hastudio yn ystod pob blwyddyn academaidd, dylech siarad â'ch prifysgol neu'ch coleg.

A fydd angen i mi ddarparu unrhyw dystiolaeth?

Prawf o'ch hunaniaeth

Y tro cyntaf y byddwch yn gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr, bydd angen i chi ddarparu prawf o'ch hunaniaeth – bydd hyn yn ein helpu i gadarnhau a ydych chi'n gallu cael cyllid i fyfyrwyr.

Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw rhoi manylion eich pasbort dilys y Deyrnas Unedig i ni yn eich cais. Yna, gallwn archwilio a chadarnhau eich hunaniaeth heb i chi orfod anfon eich pasbort atom.

Os nad oes gennych chi basbort y Deyrnas Unedig dilys, bydd angen i chi anfon eich tystysgrif geni neu fabwysiadu'r Deyrnas Unedig atom, gyda 'Ffurflen tystysgrif Geni/Mabwysiadu 2018/19' wedi'i llenwi. Gellir lawrlwytho hon o www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk ar ôl i'r gwasanaeth ymgeisio agor.

Os ydych yn ddeiliad pasbort nad yw'n basbort o'r Deyrnas Unedig, bydd angen i chi anfon eich pasbort dilys nad yw'n basbort y Deyrnas Unedig neu'ch Hawlen Breswyllo Fiometrig atom. Rhaid i'r rhain fod yn ddogfennau gwreiddiol, nid llungopïau. Byddwn yn eu dychwelyd ar ôl i ni gadarnhau eich hunaniaeth ac archwilio eich bod yn gymwys i gael cyllid i fyfyrwyr.

Prawf o incwm y cartref

I wneud cais am Grant Cwrs a Grant Ffioedd, bydd angen i chi anfon tystiolaeth o incwm eich cartref (eich incwm chi ac incwm eich partner os oes gennych un). Diben hyn yw sicrhau eich bod yn cael yr holl gyllid i fyfyrwyr yr ydych yn gymwys i'w gael. Dylech anfon unrhyw dystiolaeth y byddwn yn gofyn amdani cyn gynted ag y bo modd. Ni fyddwn yn gallu prosesu'ch cais nes bydd gennym yr holl dystiolaeth y mae ei hangen arnom. Os bydd eich cais yn hwyr, efallai y bydd eich arian yn hwyr hefyd.

Dylech anfon llungopïau o unrhyw wybodaeth ariannol atom - ni ddylech anfon dogfennau gwreiddiol atom. Ni fyddwn yn dychwelyd copïau o unrhyw beth a anfonwyd atom fel prawf o incwm eich cartref. Ar ôl i ni orffen gyda nhw, byddwn yn eu dinistrio mewn ffordd ddiogel.

Sut a phryd ddylwn i ailymgeisio?

Myfyrwyr a gychwynnodd ar eu cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2014

Dylech wneud cais am gyllid i fyfyrwyr ar-lein trwy droi at www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Dylai myfyrwyr sy'n gwneud cais am y tro cyntaf ddilyn y camau hyn:

- creu cyfrif, os nad oes gennych un yn barod
- mewngofnodi i'ch cyfrif cyllid i fyfyrwyr a chyflwyno'ch cais
- darparu unrhyw dystiolaeth angenrheidiol i ni
- llofnodi a dychwelyd y ffurflen datganiad y byddwn yn ei hanfon atoch yn y post

Os nad ydych chi wedi gwneud cais o'r blaen, bydd angen i chi sicrhau bod gennych chi fanylion eich pasbort a'ch tystysgrif geni wrth law.

Dylech wneud cais cyn gynted ag y bo modd er mwyn sicrhau bod eich cyllid i fyfyrwyr yn ei le yn barod ar gyfer dechrau eich cwrs.

Myfyrwyr a gychwynnodd ar eu cwrs cyn 1 Medi 2014

Os ydych yn fyfyrwr rhan-amser sy'n parhau ac sy'n ail-ymgeisio am gyllid i fyfyrwyr, dylech lawrlwytho, llenwi ac anfon ffurflen 'Cais am grantiau ar gyfer astudio rhan-amser i fyfyrwyr sy'n parhau' (PTGC) atom.

Os ydych yn fyfyrwr rhan-amser sy'n parhau ac sy'n gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr am y tro cyntaf, bydd angen i chi llenwi, cwblhau ac anfon y 'Cais am grantiau ar gyfer astudio rhan-amser i fyfyrwyr newydd' (PTGN) atom.

Gallwch lawrlwytho'r ffurflenni hyn trwy droi at www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Sut a phryd ddylwn i ail-ymgeisio?

Beth os bydd fy amgylchiadau'n newid?

Os cychwynnoch ar eich cwrs ar ôl 1 Medi 2014, gallwch ddweud wrthym am unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau yn eich cyfrif ar-lein.

Gallwch anfon ffurflen 'Newid mewn Amgylchiadau' (CO2) atom ar unrhyw adeg hefyd er mwyn dweud wrthym am unrhyw newid i'ch amgylchiadau. Gallwch lawrlwytho ffurflen CO2 trwy droi at www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk ar ôl i'r gwasanaeth ymgeisio agor.

Os cychwynnoch ar eich cwrs cyn 1 Medi 2014, bydd angen i chi lawrlwytho ffurflen 'Newid mewn Amgylchiadau' trwy droi at www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

Os bydd swm y ffioedd dysgu y bydd eich prifysgol neu'ch coleg yn eu codi arnoch yn newid cyn y byddwch yn cychwyn eich cwrs, dylech ddweud wrthym am hyn yn uniongyrchol. Fodd bynnag, os bydd yn newid ar ôl i'ch cwrs gychwyn, bydd angen i chi ofyn i'ch prifysgol neu'ch coleg ddweud wrthym amdano yn lle hynny.

Os ydych yn bwriadu newid eich cwrs, newid dwyster eich cwrs, ailadrodd blwyddyn, gadael addysg uwch neu atal eich astudiaethau ar ôl i'ch cwrs gychwyn, bydd angen i chi ofyn i'ch prifysgol neu'ch coleg ddweud wrthym er mwyn osgoi cael gordaliad.

Os byddwch yn cael gordaliad, efallai y bydd yn rhaid i chi ddechrau ad-dalu'n gynharach a chyn y bydd eich incwm dros y trothwy ad-dalu.

A fydd angen i mi ail-ymgeisio bob blwyddyn?

Bydd. Gall ffioedd newid bob blwyddyn a gall symiau grantiau a benthyciadau newid hefyd.

Dim ond y tro cyntaf y byddwch yn gwneud cais y bydd angen i chi ddarparu prawf hunaniaeth.

Ond os ydych yn gwneud cais am Grant Cwrs a Grant Ffioedd, bydd angen i chi anfon tystiolaeth ariannol atom bob blwyddyn.

Beth am ad-daliadau?

Os cawsoch chi Fenthyciad Ffioedd Dysgu, bydd gofyn i chi ddechrau ad-dalu ym mis Ebrill ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs, neu'r mis Ebrill bedair blynedd ar ôl i'ch cwrs gychwyn, pa un bynnag fydd yn dod gyntaf.

Dim ond os bydd eich incwm dros y trothwy ad-dalu fydd angen i chi ddechrau talu ad-daliadau. Y trothwy presennol yw **£25,000** y flwyddyn, **£2,083** y mis neu **£480** yr wythnos.

Dyma rai enghreifftiau o swm posibl eich ad-daliadau ar sail y trothwy ad-dalu o £25,000:

Incwm bob blwyddyn cyn treth	Incwm misol cyn treth	Swm ad-dalu misol yn fras
£25,000	£2,083	£0
£27,000	£2,250	£15
£29,500	£2,458	£33
£31,000	£2,583	£45
£33,000	£2,750	£60

Sut fyddaf yn ad-dalu?

Cesglir ad-daliadau trwy system dreth y Deyrnas Unedig, naill ai:

- trwy PAYE, lle y bydd cyflogwyr yn cymryd ad-daliadau o'ch cyflog yn uniongyrchol ar yr un pryd ag y bydd yn cymryd treth ac Yswiriant Gwladol
- trwy'r trefniant hunanasesu os ydych yn hunangyflogedig

Os ydych yn bwriadu byw, gweithio neu deithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig am o leiaf dri mis ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs, rhaid i chi roi gwybod i ni.

O ganlyniadau i wahaniaethau mewn costau byw, gallai'r trothwy ad-dalu yn y wlad yr ydych yn byw ynddi fod yn wahanol i'r trothwy yn y Deyrnas Unedig.

Cyfraddau llog

Codir llog ar fenthyciadau myfyrwyr o'r diwrnod pan fyddwn yn talu'r taliad cyntaf nes yr ad-dalir y benthyciad yn llawn neu nes y caiff ei ganslo. Caiff unrhyw fenthyciad sy'n weddill ar ôl 30 o flynyddoedd ei ganslo.

Mae'r gyfradd llog yn seiliedig ar FyNEGAI Prisiau Manwerthu (RPI) y Deyrnas Unedig a bydd yn amrywio gan ddibynnu ar eich amgylchiadau.

Caiff y gyfradd llog ei diweddarau unwaith y flwyddyn ym mis Medi, gan ddefnyddio'r ffigwr RPI o'r mis Mawrth yn ystod y flwyddyn honno.

Pa help ychwanegol sydd ar gael?

Lwfansau i Fyfirwyr Anabl (DSAs)

Beth yw diben hyn?

Mae DSAs yn helpu talu costau ychwanegol y bydd gofyn i chi eu talu o ganlyniad uniongyrchol i'ch anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd tymor hir, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol.

Gallant helpu talu'r gost o gael rhywun i'ch cynorthwyo, eitemau offer arbenigol, costau teithio neu gostau eraill sy'n gysylltiedig ag astudio.

Oes rhaid i mi ei ad-dalu?

Na fydd, oni bai y byddwch yn gadael eich cwrs yn gynnar.

Unrhyw beth arall?

Rhaid bod dwyster y cwrs yr ydych yn ei astudio yn 25% o leiaf er mwyn cael DSAs.

Ni fydd DSAs yn dibynnu ar incwm eich cartref. I wneud cais, dylech lawrlwytho ffurflen DSA1 o www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk pan fydd y gwasanaeth ymgeisio yn agor, ei llenwi a'i dychwelyd atom.

Gall y broses o ymgeisio am DSAs gymryd tua 14 wythnos, felly dylech wneud cais cyn gynted â phosibl.

Lwfans	Uchafswm ar gyfer myfyrwyr israddedig rhan-amser
Lwfans helpwr anfeddygol	£15,885 y flwyddyn
Lwfans offer arbenigol	£5,332 ar gyfer eich cwrs cyfan
Lwfans cyffredinol	£1,338 y flwyddyn
Lwfans teithio	Gwariant rhesymol ar gostau teithio ychwanegol y gall fod angen i chi eu talu i gyrraedd eich cwrs oherwydd eich anabledd

Grantiau Dibynyddion

Lwfans Dysgu i Rieni (PLA)

Beth yw diben hyn?

Help ychwanegol i dalu costau sy'n gysylltiedig â'r cwrs yw PLA, megis llyfrau, deunyddiau cwrs a chostau teithio, os oes gennych chi blant dibynnol.

Beth allaf i ei gael?

Gallwch gael hyd at £1,167.75 y flwyddyn. Mae'r swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref. Incwm eich cartref yw incwm eich partner (os oes gennych chi un) ac unrhyw ddibynyddion.

Oes rhaid i mi ei ad-dalu?

Na fydd, oni bai eich bod yn cael gordaliad oherwydd bod eich amgylchiadau'n newid. Felly mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni os bydd eich amgylchiadau'n newid.

Unrhyw beth arall?

Rhaid eich bod yn astudio cwrs ar ddwyyster o 50% o leiaf. Fel arfer, fe'i telir ar ffurf tri rhandaliad, un ar ddechrau pob tymor, i'ch cyfrif banc yn uniongyrchol. Os ydych yn gwneud cais am PLA am y tro cyntaf, bydd angen i chi anfon tystiolaeth o unrhyw blant sy'n dibynnu arnoch yn ariannol.

Grant Oedolion Dibynnol (ADG)

Beth yw diben hyn?

Mae ADG yn helpu talu costau sy'n gysylltiedig â'r cwrs os oes gennych chi oedolyn sy'n dibynnu arnoch yn ariannol.

Beth allaf i ei gael?

Gallwch gael hyd at £2,049 y flwyddyn. Mae'r swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref a dwyster eich cwrs. Incwm eich cartref yw incwm eich partner (os oes gennych chi un) ac unrhyw ddibynyddion.

Oes rhaid i mi ei ad-dalu?

Na fydd, oni bai eich bod yn cael gordaliad oherwydd bod eich amgylchiadau'n newid. Felly mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni os bydd eich amgylchiadau'n newid.

Unrhyw beth arall?

Rhaid eich bod yn astudio cwrs ar ddwyyster o 50% o leiaf. Fel arfer, telir ADG ar ffurf tri rhandaliad, un ar ddechrau pob tymor, i'ch cyfrif banc yn uniongyrchol. Os ydych yn gwneud cais am ADG am y tro cyntaf, bydd angen i chi anfon tystiolaeth o unrhyw oedolion sy'n dibynnu arnoch yn ariannol.

Pa help ychwanegol sydd ar gael?

Grant Gofal Plant (CCG)

Beth yw diben hyn?

Mae CCG yn helpu talu costau gofal plant os oes gennych chi blant dibynnol dan 15 oed (neu 17 os oes ganddynt anghenion addysgol arbennig) sy'n cael gofal plant cofrestredig neu gymeradwy.

Beth allaf i ei gael?

Gallech gael hyd at 85% o'ch costau wythnosol, hyd at uchafswm o £121.13 yr wythnos am un plentyn, neu £205.91 yr wythnos os oes gennych chi ddau o blant neu fwy. Bydd y swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref hefyd.

Oes rhaid i mi ei ad-dalu?

Na fydd, oni bai eich bod yn gadael eich cwrs yn gynnar neu'n goramcangyfrif eich costau gofal plant.

Unrhyw beth arall?

Rhaid eich bod yn astudio cwrs ar ddwystr o 50% o leiaf. Rhaid i chi wneud cais am CCG o fewn naw mis i ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Ni allwch gael CCG os ydych chi neu'ch partner yn cael elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith neu'r Credyd Cynhwysol, Gofal Plant Di-dreth gan Gyllid a Thollau EM, neu Lwfans Gofal Plant gan y GIG – ond gallwch ddewis gael Grant Gofal Plant gennym ni yn lle hynny.

Fel arfer, telir CCG ar ffurf tri rhandaliad, un ar ddechrau pob tymor. Pan fyddwch yn gwneud cais, bydd y swm y byddwch yn

ei gael yn seiliedig ar faint fydd eich gofal plant yn ei gostio yn eich barn chi.

Byddwn yn gofyn i chi a'ch darparwr gofal plant gadarnhau'ch costau go iawn dair gwaith yn ystod y flwyddyn.

Sut i wneud cais am Grantiau Dibynyddion

Os ydych yn dymuno gwneud cais am Grantiau Dibynyddion, bydd angen i chi lawrlwytho 'Ffurflen gais Grantiau ar gyfer Dibynyddion i fyfyrwyr rhan-amser' (PTGFD) o www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk ar ôl i'r gwasanaeth ymgeisio agor, ei llenwi a'i dychwelyd atom. Neu gallwch roi tic yn y blwch yn y prif gais i roi gwybod i ni eich bod yn dymuno gwneud cais am Grantiau Dibynyddion, a byddwn yn anfon y ffurflen atoch i'w llenwi.

Os ydych yn gwneud cais am Grant Gofal Plant, bydd angen i chi lenwi ffurflen 'Cais am help i dalu costau gofal plant ar gyfer myfyrwyr rhan-amser' (PTCCG1) hefyd, fel eich bod yn gallu rhoi amcangyfrifon o'ch costau gofal plant. Gellir lawrlwytho hon o www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk ar ôl i'r gwasanaeth ymgeisio agor neu byddwn yn ei hanfon atoch.


Bwrsariaethau ac ysgoloriaethau

Efallai y byddwch yn gallu cael bwrsariaeth neu ysgoloriaeth gan eich prifysgol neu'ch coleg. Trowch at eu gwefan am fanylion.

Budd-daliadau

Fel myfyriwr rhan-amser, fel arfer byddwch yn dal i allu hawlio budd-daliadau sy'n ddibynnol ar incwm eich cartref, megis Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar incwm, Budd-dal Tai, Lwfans Tai Lleol a Gostyngiad y Dreth Gyngor os ydych yn ddi-waith. Ni fydd y Ganolfan Byd Gwaith ac adran budd-daliadau eich awdurdod lleol yn trin y Benthyciad Ffioedd Dysgu neu Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl fel incwm wrth asesu unrhyw fudd-dal y cynhelir asesiad incwm er mwyn ei gael.

Cofiwch mai gwybodaeth gyffredinol a roddir yn y canllaw hwn. Os ydych o'r farn y gallech fod yn gymwys i gael unrhyw rai o'r budd-daliadau y cyfeiriwyd atynt, cysylltwch â'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol, adran budd-daliadau eich awdurdod lleol neu adran gwasanaethau myfyrrwyr eich prifysgol neu'ch coleg.



Cyllid Myfyrwyr Cymru

Am ragor o wybodaeth ac er mwyn gwneud cais, ewch i www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk

Yn ogystal, gallwch ein ffonio ar **0300 200 4050** (ffôn testun **0300 100 1693**) rhwng 8am ac 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS)

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar wefan yr NUS ar www.nus.org.uk/nus-wales

Scholarship Search UK

Mae'r wefan hon yn cynnig gwybodaeth am ffynonellau eraill o gyllid ar gyfer myfyrwyr israddedig.

www.scholarship-search.org.uk

Cymdeithas Genedlaethol Cyngorwyr Ariannol Myfyrwyr (NASMA)

Mae NASMA yn elusen sy'n gweithio i helpu myfyrwyr trwy ddarparu cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth trwy droi at www.nasma.org.uk

Rhestr gyfeirio

Ticiwch bob cam i sicrhau y cewch eich arian pan fydd eich blwyddyn academaidd newydd yn cychwyn.

- 1 Rydw i wedi lawrlwytho fy ffurflen gais neu wedi ymgeisio ar www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk
- 2 Rydw i wedi llenwi pob adran sy'n berthnasol i mi, rydw i wedi llofnodi'r datganiad ac wedi darparu unrhyw dystiolaeth ofynnol.
- 3 Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru wedi anfon llythyr Hawl i gael Cyllid i Fyfyrwyr ataf yn nodi faint y byddaf yn ei gael.
- 4 Rydw i wedi dangos fy llythyr Hawl i gael Cyllid i Fyfyrwyr i'm prifysgol neu goleg, yn ôl y gofyn.
- 5 Rydw i wedi cychwyn ar fy nghwrs ac mae fy mhrifysgol neu fy ngholeg wedi cadarnhau fy mod wedi cofrestru.
- 6 Mae fy arian wedi'i dalu.

Gallwch archebu fersiynau Braille, fersiynau print mawr neu fersiynau sain o ffurflenni a chanllawiau hefyd trwy anfon neges yn cynnwys eich manylion, ynghyd â pha ffurflen a fformat mae arnoch eu hangen at **brailleandlargefonts@slc.co.uk** neu gallwch ein ffonio ar **0141 243 3686**. Sylwer, mae'r cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn uchod yn ymateb i geisiadau am ffurflenni a chanllawiau ar ffurf amgen yn unig.

© Argraffydd y Frenhines a Rheolydd HMSO 2018.

Cynhyrwyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr ar ran Llywodraeth Cymru.

Gellir atgynhyrchu detholiadau o'r ddogfen hon at ddibenion ymchwil anfasnachol, addysg neu hyfforddiant, ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell. I drafod unrhyw ddefnydd arall, cysylltwch â **HMSOlicensing@cabinetoffice.x.gsi.gov.uk**

Cynnig cyfarwyddyd yw unig ddiben y llyfryn hwn; nid yw'n ddatganiad ynghylch gofynion y gyfraith.

WG34250

ISBN: 978-1-78903-620-6